Memorandwm Esboniadol ynghylch Gorchymyn Iechyd Planhigion (Phytophthora Ramorum) (Cymru) (Diwygio) 2007

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Materion Gwledig ac fe'i cyflwynir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

1. **Disgrifiad**

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Phytophthora Ramorum) (Cymru) 2006 ("y prif Orchymyn"), sy'n cynnwys mesurau i atal Phytophthora ramorum rhag cael ei gyflwyno a'i ledaenu. Mae'n gweithredu Penderfyniad y Comisiwn 2007/201/EC ac yn cywiro mân wallau trosi yn y prif Orchymyn.

2. **Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

Nid oedd unrhyw faterion o'r fath yn codi. Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu rhwymedigaethau cyfarwyddol y Gymuned drwy Benderfyniad y Comisiwn 2007/201/EC, sy'n diwygio Penderfyniad y Comisiwn 2002/757/EC.

3. **Y Cefndir Deddfwriaethol**

Mae Penderfyniad y Comisiwn 2007/201/EC yn diwygio Penderfyniad y Comisiwn 2002/757/EC, sy'n nodi mesurau i'w cymryd mewn Aelod-wladwriaethau yn erbyn Phytophthora ramorum er mwyn dod o hyd i'r organedd, penderfynu ar ei ddosbarthiad a'i atal rhag digwydd a lledaenu. Gweithredir y Penderfyniad hwn yng Nghymru ar gyfer planhigion a deunydd plannu gan Orchymyn Iechyd Planhigion (Phytophthora ramorum) (Cymru) 2006, gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf Iechyd Planhigion 1967. Mae deddfwriaeth gyfatebol, ar wahân ar waith yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae Gorchymyn Iechyd Planhigion (Phytophthora ramorum) (Cymru) 2007 yn cael ei wneud o dan adrannau 2 a 3(1), (2), (3) a (4) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967. Cafodd y swyddogaethau a roddwyd gynt i Ysgrifennydd Gwladol Cymru eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r offeryn hwn yn cael ei wneud gan ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

4. **Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae Gorchymyn Iechyd Planhigion (Phytophthora ramorum) (Cymru) 2007 yn diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Phytophthora ramorum) (Cymru) 2006 ("y prif Orchymyn"). Mae'n gweithredu

Penderfyniad y Comisiwn 2007/201/EC ac yn cywiro mân wallau trosi yn y prif Orchymyn. Mae'r prif newidiadau fel a ganlyn:-

- diwygiad i'r rhestr o ddeunydd sy'n dueddol o gael y pla y mae'r Gorchymyn yn gymwys iddi, a

- chyflwyno gofynion ychwanegol ar gyfer symud deunydd sy'n dueddol o gael y pla, yn benodol bod mesurau ffytoiechydol yn cael eu cymryd o fewn radiws o ddau fetr i le y mae planhigion heintiedig wedi bod.

Mae'n ofynnol i Lywodraeth y Cynulliad weithredu'r Penderfyniad hwn gan y Comisiwn cyn gynted ac y bo'n ymarferol bosibl er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu ledled yr UE er mwyn atal y pathogen planhigion hwn rhag cael ei gyflwyno a'i ledaenu. Cyngor yr Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau, sy'n gweithredu yng Nghymru ar ran Llywodraeth y Cynulliad, yw y byddai peidio â gweithredu'r diwygiadau hyn yn golygu y byddai mwy o fygythiad i iechyd planhigion yng Nghymru.

5. Gweithredu

Bwriedir i'r Gorchymyn Diwygio hwn ddod i rym ar 12 Hydref 2007. Gweithredwyd deddfwriaeth gyfatebol yn Lloegr ar 15 Awst 2007 ac mae'n cael ei hystyried yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ar hyn o bryd. Ni ddisgwylir y byddai gweithredu'r Rheoliadau hyn yn cael unrhyw effeithiau arwyddocaol yng Nghymru ac eithrio cyflwyno mesurau gwell i reoli afiechydon. Er hynny, byddai methu â gweithredu'r diwygiadau hyn yn arwain at anawsterau gweithredol i'r Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau, oherwydd byddai angen iddi ddefnyddio cyfundrefnau rheoleiddio gwahanol yng Nghymru a Lloegr wrth ddarparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r Gorchymyn hwn.

6. Ymgynghori

Ni farnwyd bod angen ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch y Gorchymyn Diwygio. Mae'r diwygiadau'n gweithredu rhwymedigaethau cyfarwyddol arferol y Gymuned, nad ydynt yn rhai dadleuol. At hynny, cafodd cynrychiolwyr y diwydiant yn y DU gyfle i ymateb i ymgynghoriad a gynhaliwyd ar lefel yr UE ymhlith rhanddeiliaid cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei llunio. O ganlyniad, ni chynhaliodd Lloegr na'r Alban ymgynghoriad penodol ynghylch y mater hwn a barnwyd y byddai'n briodol gweithredu yn yr un modd yng Nghymru.

7. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol, gan nad yw'r Gorchymyn Diwygio yn effeithio o gwbl ar gostau busnesau, awdurdodau lleol na'r sector gwirfoddol.